# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP(3)-03-10

**Dyddiad: 23 Chwefror 2010**
**Amser: 10.06 – 11.22**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sian Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Huw Jones, Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru
Anne Hamilton, Pennaeth Datblygu Pobl a Rhaglenni, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cynhaliwyd rhan gyntaf Eitem 2 yn anffurfiol gan nad oedd cworwm yn bresennol.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies, Eleanor Burnham a Joyce Watson. Roedd Ann Jones a Val Lloyd yn dirprwyo ar ran Sandy Mewies a Joyce Watson.

1.4 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 2. Ymchwiliad i fannau diogel i gymdeithasu – casglu tystiolaeth

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

2.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd CLlLC i roi copi o adolygiad yr Uned Cefnogi Partneriaethau i'r Pwyllgor.

Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn yn egluro a oes digon o gysylltiad rhwng cynllunio a chanllawiau iechyd cyhoeddus, ac yn egluro a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn glynu wrth ganllawiau o'r fath.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at brif weithredwyr awdurdodau lleol Cymru yn gofyn iddynt amcangyfrif eu gwariant cyllidebol ar ddarparu gwasanaethau ieuenctid a chwarae.

Cytunodd CLlLC i ddarparu manylion pellach ynghylch cytundebau Adran 106.

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at CLlLC er mwyn gofyn cwestiynau ffeithiol na chafwyd amser i'w gofyn oherwydd cyfyngiadau amser.

2.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

**Cyngor Chwaraeon Cymru**

2.5 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r tystion am ddod i'r cyfarfod ac am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw.

2.7 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a nodwyd y papurau.

2.8 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Chwefror.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2010**